**Prifysgol De Cymru**

**University of South Wales**

**Arweiniad i fyfyrwyr ynglŷn â Chrefydd a Chred yng nghyswllt dysgu ac addysgu**

Y mae Prifysgol De Cymru wedi ymrwymo i hybu awyrgylch sy'n galluogi myfyrwyr i ymarfer eu crefydd neu gred tra'n astudio yn y Brifysgol. Bydd Prifysgcol De Cymru yn ymdrechu i fod mor hyblyg ag sy'n bosibl er mwyn cydnabod crefydd, cred ac anghred staff a myfyrwyr. Sut bynnag, dylai myfyrwyr sydd am ymarfer gofynion eu crefydd nodi'r canlynol:

1. Dylai myfyrwyr sy'n dymuno cyflawni eu hymrwymiadau gweddio wneud hynny, mor bell ag sy'n bosibl, cyn neu ar ôl darlithoedd neu ddosbarthiadau. Y mae'r Calendr Academaidd, amserlen a'r amserau y mae'r Brifysgol ar gau wedi eu seilio ar wyliau cyhoeddus yng Nghymru ac yn y sector. Y mae felly yn angenrheidiol ac yn ymarferol i gyflwyno rhaglenni a chyrsiau a chynnal digwyddiadau addysgu a dysgu fel arfer dros wythnos o waith (o ddydd Llun i ddydd Gwener.)

2. Y mae'n gyfrifoldeb ar fyfyrwyr i wneud trefniadau i ddal i fyny ar waith a gollwyd trwy ymarfer gweddi a chadw gofynion crefydd; sut bynnag, dylai pob llenyddiaeth a darlit rennir mewn darlithoedd neu seminarau fod ar gael I bob myfyriwr, presennol neu beidio.
3. Y mae Prifysgol De Cymru yn gwybod bod rhai gwyliau crefyddol yn medru cyd-daro gyda'r Amserlen Academaidd. Ond er hynny, o gofio'r amrywiaeth ymrwymiadau crefyddol, ni all y Brifysgol drefnu ei hamserlen neu ei therfynau gwaith cwrs oddi amgylch gwyliau crefyddol pob ffydd a thraddodiad.
4. Ni fydd mynychu gwyliau crefyddol fel arfer yn cael ei dderbyn fel rheswm lleddfu amgylchiadau. Y mae'n gyfrifoldeb myfyriwr/wraig i dynnu sylw ei (h)arweinydd cwrs/tiwtor at unrhyw wrthdaro rhwng cadw gofynion crefyddol ag amserau arholiad a hynny yn union pan ddaw'r mater i sylw. O roddi rhybydd digonol **gallai** fod yn bosibl gwneud trefniadau eraill ac felly y mae trafodaeth cyn gynted ag y daw'r mater i'r amlwg yn angenrheidiol. Y mae'n rhaid cydnabod, er hynny, ei bod yn anodd iawn derbyn y ceisiadau rhain oherwydd cyfyngiadau trefnu arholiadau, y llwyth gwaith ychwanegol ar y staff a'r effaith ar fyfyrwyr eraill.
5. Gan fod rhai crefyddau yn rhyddhau myfyrwyr o ymrwymiadau crefyddol yn ystod cyfnod astudio ac arholiadau, dylid derbyn unrhyw ryddhad o'r fath ble bynnag y mae hynny'n bosibl.
6. Pan fo angen gwirio hunaniaeth ymgeiswyr arholiad mewn perthynas â phrosesau'r Brifysgol, gwneir y gwirio ar ymgeiswyr sy'n gwisgo dillad diwylliannol/crefyddol yn cuddio eu hwynebau mewn modd sensitif a chan aelod prodol o'r staff.
7. Dylai myfyrwyr sy'n dymuno cymeryd toriad estynedig oddi wrth eu hastudiaethau ar gyfrif cadw gofynion crefyddol drafod hynny gyda'r arweinydd cwrs priodol er mwyn ystyried sut y maent yn bwriadu dal i fyny gyda'u hastudiaethau, asesiadau neu ofynion eraill eu cwrs. Mae'n ofynnol i'r Brifysgol hysbysu rhai asiantau megis y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, UKUI, LEA os yw myfyriwr yn absennol am gyfnod estynedig.

8. Dylai myfyrwyr y disgwylir iddynt ymgymeryd â phrofiad gwaith neu ymarfer clinigol fel rhan o'u cwrs academaidd sicrhau gofynion gwisg cyn eu lleoliad. Gallai ystyriaethau Iechyd a Diogelwch , darpariaeth gofal ac ymwneud â'r cyhoedd osod rhai cyfyngiadau ar wisgo gwisg grefyddol. Dylai myfyrfwyr ymgynghori gyda'u Cyfarwyddwr Cwrs neu Diwtor cyn cychwyn eu lleoliad neu ymarferiad i drafod pa hyblygrwydd sy bosibl neu sut y gellid addasu gwisg yng nghyswllt myfyrwyryn cadw gofynion crefyddol
9. Efallai na fydd yn bosibl i fyfyrwyr gael mynediad i'r math o ddarpariaeth gweddi neu amser i ffwrdd i fynychu cyfarfodydd gweddi yn ystod lleoliad. Er enghraifft, mae nifer o gyrsiau gradd sy'n arwain at gymhwyster proffesiynol yn cynnwys elfennau yn yr hyfforddiant a all dorri ar draws cadw arferion crefyddol.
10. Mae gan Iechyd a phroffesiynau cysylltiol gôd ymddygiad sy'n gofyn bod staff a myfyfrwyr ar leoliad yn gweithio gydag amrywiaeth oi unigolion gan gynnwys gwr, gwragedd, pobl hŷn, lesbiaid, hoywon, deurywion a thransrywion. Dylai myfyrwyr fod yn ymwybodol bod yn rhaid cydymffurfio â'r côd. Mae hyn yn golygu na ellir defnyddio cred grefyddol yn rheswm dros wrthod gweithio gyda chlaf penodol neu grwp o glieintiau

Y mae'r Brifysgol yn cydnabod ymrwymiad myfyrwyr i ofynion crefyddol ac y mae'n weithredol gefnogol i'r hawliau hynny mewn awyrgylch o oddefgarwch a pharch. Y mae hefyd lawn mor bwysig cydnabod safbwynt pobl sy a chred ganddynt a'r rhai sy'n ddigred. Dylai pob myfyriwr Prifysgol barchu barn a hawliau dynol eraill.

Am ragor o wybodaeth achymgor cysylltwch a Michelle Romaniw, Pennaeth Gwsasanaethau Caplaniaethol ffôn. 01443 654060